“Gwyn eu byd y rhai pur eu calon, oherwydd cânt hwy weld Duw.”
(Mathew 5:8)

Does dim amheuaeth fod hwn yn un o ymadroddion mwyaf yr Arglwydd Iesu. Mae dyfnder rhyfeddol iddo, ac addewid arbennig iawn hefyd.

Pur

Y gair Groeg yw ‘katharos’ sydd wedi rhoi geiriau megis ‘catharsis’ a ‘catheter’ sef clirio neu lanhau allan. Mae’n golygu glân, heb elfen o lygredd yn perthyn iddo. Ffynhonnell purdeb yw Duw, sydd yn ‘ogoneddus ei sancteiddrwydd,’

Roedd gan yr angylion ac Adda burdeb wedi’i greu, cyn iddynt syrthio i bechod. Mae gan y Cristion burdeb cymysg yn y byd hwn. Ynghanol llygredd yr hen natur mae purdeb y natur newydd sydd ganddo. Felly, mae’r purdeb fel aur ynghanol mwynau eraill pan gaiff ei gloddio gyntaf, fel trysor ynghanol tomen sbwriel.

Yn y galon

Y galon yw’r allwedd i’r person cyfan ac i’r bywyd cyfan. Yr unig le i buro afon yw yn y tarddiad. Mae’r fest amddiffyn sydd gan blismyn yn amddiffyn y galon, ac felly’r holl gorff. Heb burdeb calon bydd y Cristion honedig fel y rhagrithiwr Phariseaidd yn pwyso ar grefydd allanol, arwynebol.

Y galon yw cartref Duw yn ei bobl: **“rwyf gyda’r cystuddiol ac isel ei ysbryd, (er mwyn) bywhau calon y rhai cystuddiol”** (Es. 57:15). Rhaid i ’stafell y Brenin fod yn lân!

Pam mae purdeb calon mor bwysig?

Dyma ewyllys Duw. **“Oherwydd hyn yw ewyllys Duw, ichwi gael eich sancteiddio”** (1Thes. 4:3).

Dyma sut y cawn weld Duw.

Dyma sut un yw Duw ei hun: “**Byddwch sanctaidd, oherwydd yr wyf fi yn sanctaidd”** (1 Pedr 1:16).

Bwriad yr Efengyl yw puro. Mae pechod yn ‘aflendid’ ac fel ‘clwyf’. Os yw Ysbryd Glân Duw ar waith ynom, sut allwn aros mewn pechod? Pwrpas croes Iesu Grist yw ein hachub rhag digofaint Duw ac oddi wrth ein pechodau.

Rhwystrau rhag cael calon bur

Anwybodaeth o Dduw. Os nad yw person yn gwybod sut un yw Duw, fydd e ddim yn gweld yr angen mawr am burdeb fel **“anghredinwyr y dallodd duw’r oes bresennol eu meddyliau, rhag iddynt weld goleuni Efengyl gogoniant Crist, delw Duw”** (2Cor. 4:4).

Rhoi gormod o le i bechod yn y galon. Mae mor beryglus dal gafael mewn pechod, hyd yn oed **un** hoff bechod, fel yr oedd Jacob yn ofni gadael i Benjamin fynd i'r Aifft. Mae mwynhau pechod yn rhwystr anferth i burdeb calon. Mae "**ymhyfrydu mewn anghyfiawnder"** yn nodwedd o'r di-gred. Roedd Paul yn brwydro yn erbyn pechod: **"oherwydd yr wyf yn gwneud, nid y peth yr wyf yn ei ewyllysio ond y peth yr wyf yn ei gasáu"** (Rhuf. 7:15).

Mae darparu ar gyfer pechod yn rhwystr i burdeb calon (Rhuf. 13:14). Mae fel person sydd yn disgwyl cyfarfod ffrind, ac mae'n mynd dros yr hyn fyddant yn ei wneud a beth fyddant yn siarad amdano. Mae'n paratoi yn eiddgar at yr hyn sydd i ddod. Mae gwneud hyn yn feddyliol gyda phechod yn llygru'r galon yn ddirfawr.

Cymorth i burdeb calon

Didwylledd gerbron Duw a dynion. Mae bod yn agored ac yn barod i gael ein harchwilio gan Dduw yn bwysig: "**Chwilia fi, O Dduw, iti adnabod fy nghalon; profa fi, iti ddeall fy meddyliau"** (Salm 139:23). Mae hyn yn bwysig mewn addoliad ac yn ein holl fywyd.

Osgoi unrhyw ymddangosiad o bechod. Yn wir, casáu pechod, nid dim ond ei osgoi: **"yr wyf yn casáu llwybrau twyll"** (Salm 119:104).

Gweld Duw

Mae gennym yr addewid i weld Duw yn rhannol trwy ffydd yn y byd hwn, ond ei weld yn berffaith glir yn y nefoedd **"Yn awr, gweld mewn drych yr ydym, a hynny'n aneglur; ond yna cawn weld wyneb yn wyneb"** (1 Cor. 13:12) Ond mae'r golwg yma yn hynod o fendithiol ac yn flaendal o'r bendithion sydd i ddod i ni.

Mae golwg ar Dduw fel ein Tad nefol ac ar ei ras a'i gariad yng Nghrist yn ogoneddus ac yn rhagori ar bopeth arall a welwn â llygaid naturiol. Mae'n debyg i ogoniant Crist yn y gweddnewidiad: **"ac aeth ei ddillad i ddisgleirio'n glaerwyn, y modd na allai unrhyw bannwr ar y ddaear eu gwynnu"** (Marc 9:3)

Mae gweld gogoniant Duw yng Nghrist yn ein trawsffurfio ni i fod yn debycach iddo: **"Ac yr ydym ni i gyd, heb orchudd ar ein hwyneb, yn edrych, fel mewn drych, ar ogoniant yr Arglwydd ac yn cael ein trawsffurfio o ogoniant i ogoniant," (" Cor. 3:18).** Mae'n ein bodloni mewn modd na all edrych ar bethau eraill fyth wneud: **"ni ddigonir y llygad trwy edrych"** (Preg.1:8).